# CYNGOR CAERDYDD
# CARDIFF COUNCIL
# Adroddiad Blynyddol i Aelodau Etholedig 2018
# Annual Report for Elected Members 2018

**Cynghorydd / Councillor: Bablin Molik** **Plaid/ Party: Democratiaid Rhyddfrydol Cymru**

**Ward: Cyncoed & Lakeside** **Etholwyd yn Gyntaf/ First Elected: 5 May 2017**

Mae'r adroddiad yn nodi fy mhrif weithgareddau dros flwyddyn ddinesig 2017/18 sy'n dod i ben 24 Mai 2018. Darperir yr adroddiad er gwybodaeth i'r holl etholwyr a dim at unrhyw ddiben arall.

**Adran 1: Rôl a Chyfrifoldebau**

Ro'n i'n falch o gael fy ail-ethol fel Cynghorydd y Democratiaid Rhyddfrydol ar gyfer Cyncoed a Lakeside, ochr yn ochr â fy nghydweithiwr yn y ward y Cynghorydd Wendy Congreve. Rwy'n aelod o'r Pwyllgor Rhianta Corfforaethol. Fi yw Dirprwy Arweinydd Grŵp fy mhlaid, ac rwyf wedi cysgodi'r Aelod Cabinet dros Blant a Theuluoedd.

Gellir gweld y Cofnod Presenoldeb yma: Presenoldeb
Gellir gweld y Cofnod Dysgu a Datblygu yma: Dysgu

**Adran 2: Gweithgareddau Etholaeth**

Dros y flwyddyn ddiwethaf rwyf wedi ymdrin â mwy na 120 darn o waith achos, yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion gan gynnwys; casgliadau gwastraff a thipio anghyfreithlon, anghenion tai a chynnal a chadw, cyfleusterau a chynnal a chadw parciau, cynnal a chadw awyr agored o ddodrefn a choed stryd, parcio niwsans, ymddygiad gwrthgymdeithasol, ceisiadau cynllunio, gofal cymdeithasol, derbyn i ysgolion a cheudyllau.

Rwyf wedi gweithio'n ddiwyd i sicrhau bod gan Cyncoed a Lakeside ffyrdd a phalmentydd diogelech. O ganlyniad mae nifer o ffyrdd a phalmentydd wedi cael gwaith dros dro neu hir dymor a gwnaed rhai ymrwymiadau gyda chyllideb y flwyddyn ariannol nesaf.

Rwyf hefyd wedi cynnal 19 cymhorthfa yn Llyfrgell **Rhydypennau** neu Gaffi **Terra Nova**.

**Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn cyflwyno achos i alw am gylchfan ddiogelech, llwybrau diogelech i Ysgol Gynradd Lakeside ac i Lyn Parc y Rhath. Ar hyn o bryd rydym yn ceisio cael gwasanaeth swyddfa post Clearwater Way yn ôl.

Rwy'n arbennig o falch o waith fy nghyngor i ymdrin ag unigedd yng Nghaerdydd. Yr angen i weithio ar draws pob sector i ymdrin ag unigedd, gan ei fod yn cael effaith ar iechyd a lles unigolion.

Rwyf wedi bod yn Llywodraethwr Ysgol yn Ysgol Gynradd Lakeside ers cael fy ethol yn 2017.

**Gweithgareddau / Materion Eraill**

Rwyf wedi trefnu a chymryd rhan mewn casgliadau sbwriel rheolaidd gyda Cadwch Gymru'n Daclus. Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd yng Nghyncoed a Lakeside.

Rwyf wedi mynychu digwyddiadau ymgynghori gyda'r gymuned yn Eglwys Crist, wedi mynychu Clwb Cinio yn yr Eglwys Fethodistaidd ac hefyd wedi mynychu Synagog Cyncoed. Fe wnes i fwynhau mynychu'r digwyddiad diwrnod gwobrau rhandiroedd. Rwy'n aelod o grŵp preswylwyr Met Caerdydd.

Rwyf hefyd wedi mynychu digwyddiadau'r Cyngor Moslemaidd a digwyddiadau cydraddoldeb y rhywiau. Cefais fy ngwadd i lansio project i ymdrin ag anghydraddoldeb o ran iechyd merched.

**Cynghorydd: Bablin Molik**